# Cod Ymddygiad Preswyl

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi eich rhwymedigaethau ac yn rhan o'r Contract Meddiannaeth neu Gytundeb Trwydded yr ydych wedi cytuno i gadw ato wrth fyw mewn Neuaddau Preswyl.

*Cadw ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi yn lân ac yn daclus*

**Cytuno i gadw'r Llety, y Cynnwys ac (ar y cyd â Myfyrwyr eraill) y Mannau Cyffredin yn lân a thaclus a'u gadael yn lân a thaclus ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio.**

- Mae pob Myfyriwr yn gyfrifol am gadw ei ystafell ei hun yn lân ac yn daclus.
- Mae pob Myfyriwr yn gyfrifol am lanhau a thacluso wedi iddynt ddefnyddio'r Mannau Cyffredin. Mae hyn yn cynnwys golchi a chadw unrhyw offer a ddefnyddiwyd, a glanhau unrhyw beth a gollwyd ar y cownteri, y popty neu'r llawr neu yn yr oergell neu'r popty. Rhaid i Fyfyrwyr sy'n rhannu ystafell ymolchi ei gadael yn lân ac yn daclus ar ôl ei defnyddio.
- Mae pob myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod eu hystafell yn ddiogel ac yn rhydd rhag rhwystrau wrth fynd i mewn ganddyn nhw a/neu unrhyw aelod perthnasol o staff.
- Os nad yw'r Myfyriwr yn cadw'r llety'n lân ac yn daclus fel sy'n ofynnol yn ôl yr amodau hyn, yna bydd y Brifysgol yn:

  (a) cyflwyno rhybudd i'r Myfyriwr yn gofyn iddo unioni pethau ymhen wythnos. Os, wedi archwiliad pellach, na chafwyd gwelliant, gall y Brifysgol ddefnyddio glanhawyr proffesiynol i wneud yr hyn y dylasai'r Myfyriwr fod wedi ei wneud a chodi cost briodol am wneud hynny (gan gynnwys ffi weinyddol) ar y Myfyriwr neu ar grŵp o Fyfyrwyr. Os bydd unrhyw Fyfyriwr yn teimlo y codwyd y gost yn annheg, gall gwyno i'r Swyddfa Neuaddau;

  (b) peidio â darparu gwasanaethau glanhau, heb ad-dalu'r Rhent, hyd nes bod cyflwr y llety neu'r Mannau Cyffredin yn gwella nes bodloni'r Brifysgol.

Rhaid gadael y Llety a'r Mannau Cyffredin yn lân a thaclus ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio. Oni adawir y Llety a'r Mannau Cyffredin yn lân a thaclus, codir ar y myfyriwr (Myfyrwyr) sy'n gyfrifol amdanynt am gostau priodol a rhesymol glanhau'r Llety (a chyfran o gostau glanhau Mannau Cyffredin).

Ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio, bydd y Brifysgol yn cymryd o'r Llety unrhyw eitemau nad ydynt yn rhan o'r Cynnwys, ac oni bai bod yr eitem yn amlwg yn werthfawr, yn eu gwaredu yn syth. Cedwir eitemau eraill gan y Brifysgol am gyfnod o 7 diwrnod, ac wedi hynny gall y Brifysgol waredu'r eitemau hyn yn ôl eu doethineb.

*Difrod*

**Cytuno i beidio â symud, gosod na newid dim yn y Llety, yn y Mannau Cyffredin nac yn yr Adeilad neu'r Cynnwys na difrodi na cheisio trwsio'r adeiladwaith neu'r gorffeniad addurnol**

- Dylid dweud am unrhyw ddifrod damweiniol neu fel arall wrth y Swyddfa Neuaddau ar unwaith. Mae'n annhebygol yr edrychir ar ddifrod a achosir oherwydd esgeulustod neu ddiofalwch fel difrod damweiniol.

- Bydd y Brifysgol yn codi cost briodol ar y Myfyriwr am unioni'r difrod neu'r golled am orfod trefnu adnewyddu neu drwsio. Ceir rhestr o gostau am ddifrod (nad yw'n rhestr gyflawn) yma

- Os yw'r Brifysgol yn rhesymol ystyried bod y difrod yn fwriadol, diofal neu'n esgeulus dros ben, gall y Brifysgol drin y mater fe mater disgyblu yn ogystal â chodi am gost adnewyddu neu drwsio. Mewn achosion difrifol neu gyson, gall y Brifysgol hefyd derfynu contract y Myfyriwr wrth ddilyn Polisi Brifysgol ar Addasrwydd i Breswylio sydd i'w weld yma Gwybodaeth Hanfodol | Bangor University

- Ni ddylai Myfyrwyr osod, na threfnu i eraill osod, unrhyw gebl, erial, dysgl lloeren na chyfarpar arall (gan gynnwys llinellau ffôn) yn unrhyw ran o'r Adeilad.

**Os ceir difrod neu golled yn y Llety ac os nad oes modd i'r Brifysgol (trwy weithredu'n rhesymol) ddarganfod pwy sydd ar fai, cytuno i dalu cyfran deg a rhesymol o gost trwsio'r difrod neu wneud iawn am y golled gan gynnwys cyfran o'r ffi weinyddol**

Os tybia unrhyw Fyfyriwr yn rhesymol na ddylid codi arno (er enghraifft, pan allant brofi eu bod i ffwrdd ar y pryd) gallant gyflwyno eu gwrthwynebiad i'r Swyddfa Neuaddau yn y lle cyntaf. Os cadarnheir y gwrthwynebiad, gall hyn olygu bod y Myfyrwyr eraill yn yr Adeilad yn gorfod talu cyfran fwy.

- Rhaid i fyfyrwyr ofalu, os ydynt yn dod ag unrhyw gyfarpar trydanol gyda nhw, eu bod yn llai na 12 mis oed neu wedi pasio'r Prawf Offer Cludadwy yn ddiweddar. Bydd y Brifysgol yn cynnal y prawf hwn i Fyfyrwyr **am ddim** os gofynnir.

- Dim ond cyfarpar watedd isel y gall Myfyrwyr eu defnyddio yn y Llety. Ymhlith enghreifftiau o gyfarpar o'r fath mae setiau radio, systemau cerdd cludadwy, gliniaduron, tabledi, cyfrifiaduron personol, gwefrwyr ffôn, setiau teledu a sychwyr gwallt. Mae cyfarpar watedd uchel (na chaniateir) yn cynnwys Gwresogyddion.

- Mae'r Brifysgol yn darparu offer coginio yn y ceginau. Gall Myfyrwyr hefyd ddefnyddio eu hoffer coginio eu hunain yn y ceginau, cyhyd â'u bod wedi eu prynu yn y Deyrnas Unedig a'u bod yn addas i'w defnyddio gyda chyflenwad trydan y Deyrnas Unedig. Gall Myfyrwyr ddefnyddio poptai reis a brynwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond dim ond mewn ceginau sydd ag addasydd cymeradwy.

- Ni chaiff Myfyrwyr dan unrhyw amgylchiadau ddefnyddio offer coginio megis platiau poeth cludadwy, ffriwyr saim dwfn neu stofiau gwersylla yn y Llety gan fod hynny yn achosi perygl tân difrifol.

- Ni chaiff Myfyrwyr defnyddio addasydd plwg 2-ffordd a 3-ffordd. Ni chaiff Myfyrwyr ddefnyddio ceblau estyniad mewn ystafelloedd ymolchi nac mewn ceginau. Gellir defnyddio ceblau estyniad a ddarparwyd yn y Deyrnas Unedig mewn ystafelloedd gwely ond ni chaiff fod yn hwy na 3 metr o hyd ac ni all fod â mwy na 4 soced. Rhaid bod iddynt ddull o warchod rhag ymchwydd trydanol a rhaid peidio â'u llwytho y tu hwnt i'w mesur trydanol cymeradwy. Rhaid i bob cebl estyniad dros 12 mis oed gael Prawf Offer Cludadwy (bydd y Brifysgol yn cynnal y prawf hwn i Fyfyrwyr am ddim os gofynnir). Dylai ceblau fod yn ddigon hir ar gyfer y dasg; rhaid peidio â'u tynnu'n dynn na'u cysylltu â'i gilydd. Rhaid gofalu na fydd y cebl yn berygl i unrhyw un faglu drosto a rhaid peidio â'i orchuddio â dillad neu unrhyw beth arall a allai achosi i'r cebl orboethi.

- Mae'n rhaid i addasyddion teithio rhyngwladol a ddefnyddir yn y llety fod â ffiws 13amp ac wedi'u gwneud yn Ewrop, gyda nod barcud y CE yn ddelfrydol. Mae'r addasyddion rhyngwladol priodol ar gael o Swyddfa Neuaddau Ffriddoedd a Swyddfa Neuaddai Santes Fair.

- Mae Myfyrwyr yn cytuno y gall y Brifysgol wirio cyfarpar trydanol Myfyrwyr wrth archwilio ystafelloedd. Os yw'r Brifysgol yn credu'n rhesymol bod unrhyw gyfarpar yn anniogel, rhaid i'r Myfyriwr ddarparu'r fath dystiolaeth ag y bydd ar y Brifysgol ei hangen yn rhesymol sy'n dangos fod yr eitem yn ddiogel i'w defnyddio mewn llety myfyrwyr neu adael i'r Brifysgol ei harchwilio. Gall y Brifysgol gymryd cyfarpar trydanol anniogel neu sydd heb ei brofi, ond bydd yn rhoi derbynneb i'r Myfyriwr amdano a gellir ei gasglu ar derfyn y Cyfnod Preswylio.

*Arolygiad – disgwyliadau a manylion pellach*

**Cytuno i ganiatáu i'r Brifysgol ar adegau rhesymol ddod i'r Llety at ddibenion archwilio, glanhau, gwneud gwaith cynnal a chadw, trwsio neu gynnal ymweliadau**

- Mi fydd y Brifysgol fel rheol yn archwilio ystafelloedd unwaith bob semester. Bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i Fyfyrwyr mewn e-bost pan fwriedir archwilio ystafelloedd. Dylai Myfyrwyr fod yn ymwybodol ei bod yn annhebygol y bydd yn ymarferol rhoi rhybudd pan mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu drwsio.

- Trwy wneud cais cynnal a chadw mae'r Myfyriwr yn cytuno i'r Brifysgol fynd i mewn i'r Llety i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio. Dyma pam y dylai Myfyrwyr roi gwybod am waith cynnal a chadw angenrheidiol ac am ddifrod eu hunain yn hytrach na gofyn i Fyfyriwr arall neu i riant wneud y cais ar eu rhan. Disgwylir i fyfyrwyr sicrhau bod eu hystafell mewn cyflwr gweddol daclus heb unrhyw geblau llusgo ac arwynebedd llawr clir i gontractwyr a staff y Brifysgol weithio mewn amgylchedd diogel.

- Rhaid i fyfyrwyr hefyd ganiatáu mynediad i gontractwyr awdurdodedig y Brifysgol.

- Mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol i redeg y dŵr am gyfnod o 5 munud yn unrhyw ystafell wag o leiaf unwaith pob 7 diwrnod er mwyn sicrhau hylendid dŵr. Rhaid i Fyfyrwyr ddweud os bwriadant fod yn absennol am 7 diwrnod neu ragor, fel y nodir yn y llyfryn gwybodaeth ar-lein. Mae hyn yn arbennig o debygol yn ystod gwyliau'r Nadolig a gwyliau'r Pasg ond gallai hefyd fod yn berthnasol os yw'r Myfyriwr yn gadael Bangor ar leoliad gwaith estynedig neu'n mynd adref oherwydd salwch. Rhaid hysbysu'r Brifysgol am unrhyw absenoldeb o fwy na 7 diwrnod na chafodd ei gynllunio cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan wneud hynny ar-lein trwy 'Adrodd eich absenoldeb'.

*Cydymffurfio gyda Polisi Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tâ*

**Cytuno i beidio â gwneud dim a all fod yn berygl tân neu mewn unrhyw ffordd arall beryglu iechyd a diogelwch pobl eraill neu eiddo'r Brifysgol**

- Rhaid i bob Myfyriwr gwblhau'r modiwl cynefino ar-lein cyn cyrraedd neu cyn gynted ag y gofynnir iddo wneud hynny. Bydd y Brifysgol yn ystyried peidio â chwblhau'r modiwl fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn.

- Rhaid i'r Myfyriwr gydymffurfio ag ymarferion tân y Brifysgol, a gynhelir fel rheol o leiaf unwaith bob semester.

- Dangosir rhybuddion rhagofalon tân trwy'r Adeilad a dylai Myfyrwyr ymgyfarwyddo â'r drefn o adael mewn argyfwng.

- Mae perygl tân yn fater difrifol iawn mewn llety a rennir, lle mae nifer fawr iawn o bobl yn byw yn agos at ei gilydd. Gall achosi perygl tân fod yn drosedd ddisgyblaethol neu yn dor-cyfraith yn ogystal â thorri'r Contract Meddiannaeth neu Gytundeb Trwydded.

- Damweiniau neu esgeulustod, yn hytrach na gweithred fwriadol neu ddi-hid, sydd fel rheol yn achosi tanau. Mae enghreifftiau o'r pethau mwyaf tebygol i achosi tân yn cynnwys defnyddio:

    - canhwyllau, lampau olew, arogldarth, paraffîn, hylif tanwyr neu unrhyw hylif hylosg arall – ni ddylai Myfyrwyr losgi unrhyw beth â fflam agored yn yr adeilad
    - tân gwyllt – ni ddylai Myfyrwyr ddefnyddio na chadw tân gwyllt yn yr adeilad nac ar y campws
    - ysmygu – ni chaiff Myfyrwyr ysmygu yn unman yn adeiladau'r Brifysgol, nac o fewn 5 metr i unrhyw un o adeiladau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y Llety. Ni chaniateir defnyddio e-sigarennau yn adeiladau'r Brifysgol ychwaith.
    - posteri – rhaid i Fyfyrwyr beidio ag arddangos y rhain yn unman ond ar yr hysbysfyrddau - gallant fynd ar dân os ydynt yn agos i ffynhonnell gwres, a gall tân ledaenu'n gyflym o bapur sy'n llosgi.
    - sosbenni sglodion/ffriwyr saim dwfn – rhaid peidio â defnyddio'r rhain o gwbl
    - coginio heb fod yno i oruchwylio
    - gadael cyfarpar trydanol i wefru heb oruchwyliaeth (gan gynnwys e-sigarennau, gliniaduron, ffonau symudol ac ati)
    - Ffrio mewn ole dwfn
    - Defnyddio peiriant stemio dillad

Rhaid i Fyfyrwyr beidio â:

- rhwystro drysau tân neu lwybrau dianc rhag tân
- osod unrhyw beth i ddal drysau yn agored
- ymyrryd â chyfarpar ymladd tân neu synwyryddion tan heb reswm da
- seinio'r larwm tân heb reswm da

- Rhaid i fyfyrwyr hysbysu'r Swyddfa Neuaddau o unrhyw ddodrefn ychwanegol y maen nhw'n dymuno dod gyda nhw i'w llety cyn ddechrau tymor preswylio. Bydd angen asesu'r holl ddodrefn ychwanegol ar gyfer cydymffurfiaeth â rheoliadau tân yn ogystal a cyfaddasrwyth â'r gofod yn yr ystafell. Bydd gofyn i fyfyrwyr symud unrhyw ddodrefn nad yw wedi'i ddatgan neu sy'n methu â chyrraedd y gofynion hyn.
- Bydd y Brifysgol yn trin unrhyw achos o dorri rhwymedigaethau iechyd a diogelwch gan fyfyriwr fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn. Bydd y Brifysgol yn trin y mater fel trosedd disgyblu, a gall gymryd camau mewn achosion difrifol o ddod â thenantiaeth y Myfyriwr i ben trwy ddilyn Polisi Addasrwydd i Breswylio sydd i'w weld yn https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol Os oes gan y Brifysgol achos rhesymol i gredu bod y Myfyriwr wedi cyflawni trosedd, bydd y Brifysgol yn cyfeirio'r mater at yr awdurdodau.

- Bydd y Myfyriwr yn atebol am dalu costau priodol a rhesymol y Brifysgol i wirio, ailosod a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân wedi iddynt gael eu defnyddio heb reswm da. Os nad yw'n hysbys pwy oedd yn gyfrifol am eu defnyddio, caiff y costau eu trin fel taliadau difrod ar y cyd.

- Mater o synnwyr cyffredin ac o ystyried eraill, i raddau helaeth, yw iechyd a diogelwch. Yn ychwanegol at y rhagofalon tân, fe welir isod restr – nad yw'n gyflawn – o bethau a fyddai'n debyg o beryglu iechyd a diogelwch eraill, neu eiddo'r Brifysgol:

- barbeciwiau heblaw am y mannau sydd wedi'u dynodi gan y Brifysgol
- cyfarpar trydanol diffygiol neu orlwytho'r gosodiadau trydan
- niwsans sŵn cyson a partion
- aflonyddu
- bygythiadau neu ddifenwi geiriol
- anifeiliaid anwes (heblaw am anifail cymorth wedi eu hyfforddi)
- ysmygu yn yr adeiladau neu o fewn 5 metr i unrhyw un o adeiladau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys e-sigarennau.
- storio offer chwaraeon mawr mewn ystafelloedd gwely neu goridorau - h.y. caiacau, byrddau syrffio, beiciau ac ati

- Ni chaiff myfyrwyr ddod ag unrhyw arf nac arf ffug (nac eitem y gellir ei ddefnyddio felly) i mewn i eiddo'r Brifysgol, hyd yn oed os oes gan y Myfyriwr drwydded ar ei gyfer. Os oes gan Fyfyriwr eitem o'r fath bydd y Brifysgol yn gofyn i'r Myfyriwr ei gyflwyno er mwyn ei chadw'n ddiogel. Oni bai fod yr heddlu wedi cymryd yr eitem bydd y Brifysgol yn rhoi derbynneb i'r Myfyriwr fel y gall ei chael yn ôl ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio. Gall y Brifysgol ddweud wrth yr heddlu fod gan rywun arfau neu arfau ffug neu eitemau eraill y gellir eu defnyddio felly, a gall roi unrhyw eitem iddynt a ildiwyd gan Fyfyriwr (ac os felly, ni fydd rheidrwydd ar y Brifysgol i'w dychwelyd i'r Myfyriwr ar ddiwedd y Cyfnod Preswylio). Bydd y Brifysgol yn ystyried peidio â chydymffurfio â'r amod hwn fel achos difrifol o dorri contract y Myfyriwr.

- Ni ddylai myfyrwyr wefru unrhyw fatris sy'n seiliedig ar lithiwm h.y. batris e-sgwter/ceir trydanol yn y neuaddau preswyl gan fod yn amlwg yn torri amodau iechyd a diogelwch. Bydd y Brifysgol yn trin methiant i gydymffurfio â'r amod hwn fel achos difrifol o dorri contract Myfyriwr.

- Ni chaiff Myfyrwyr ddod â chyffuriau anghyfreithlon na sylweddau seicoweithredol anghyfreithlon ar y campws. Bydd y Brifysgol bob amser yn dweud wrth yr heddlu am feddiant, defnydd, cyflenwi a delio mewn cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol a byddant fel rheol yn trin ymddygiad sy'n ymwneud â chyffuriau adloniant fel achos difrifol o dorri contract y myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn trin camddefnyddio sylweddau a defnyddio sylweddau seicoweithredol fel defnydd o gyffuriau anghyfreithlon.

- Rhaid i Fyfyrwyr gloi drws eu Llety pan adawir ef yn wag, ac, os yw'r Llety ar y llawr isaf, rhaid cloi'r ffenestri hefyd.

- Rhaid i Fyfyrwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan staff y Brifysgol.

*Ymddygiad gwrthgymdeithasol*

- Rhaid i Fyfyrwyr ystyried trigolion eraill a rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw sŵn y gellir ei glywed o'r tu allan i'w hystafell neu o'r tu allan i'r gegin neu'r ystafell ymolchi a rennir, ac oherwydd hyn, ni chaniateir i Fyfyrwyr gael partïon yn eu Hadeilad nac ar dir eu Hadeilad. Bydd y Brifysgol yn trin sŵn a wneir rhwng 11.00pm a 7.00am fel niwsans sŵn difrifol. Bydd niwsans sŵn difrifol neu barhaus yn arwain at gymryd camau disgyblu, ac yn y pen draw gall arwain at droi'r Myfyriwr allan drwy ddilyn Polisi addasrwydd i breswylio sydd i'w weld yn https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol

- Ni oddefir unrhyw niwsans sŵn o gwbl yn ystod y cyfnod arholiadau.

- Y mae aflonyddu'n drosedd, a gall y Brifysgol gyfeirio achosion o aflonyddu at yr heddlu. Edrychir ar aflonyddu fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn.

- Rhaid i Fyfyrwyr beidio â dosbarthu taflenni na hysbysiadau ar ran unrhyw sefydliad, masnachol neu fel arall, yn unrhyw ran o'r campws preswyl. Dylai Myfyrwyr fod yn ofalus hefyd i beidio â gadael i unrhyw un ddod i mewn i'r Adeilad gyda'r bwriad o ddosbarthu taflenni. Bydd gan unrhyw un sydd â rheswm dilys dros ddod i mewn i'r Adeilad eisoes â modd o agor y drysau. Ni ddylai Myfyrwyr fyth ganiatáu i neb eu dilyn i mewn trwy'r drysau am unrhyw reswm. Os creda Myfyriwr fod rhywun wedi cael mynediad heb awdurdod i un o adeiladau'r Brifysgol, dylai roi gwybod i'r Swyddfa Neuaddau neu i wasanaeth diogelwch 24 awr y Brifysgol cyn gynted â phosibl.

*Gwesteion*

- Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn sylweddoli y bydd rhai Myfyrwyr eisiau dod â ffrindiau yn ôl i'w llety ac y byddent efallai eisiau aros dros nos. Nod y Brifysgol yw creu a chynnal lle byw cytûn i bob preswylydd a bydd cael cydweithrediad pob preswylydd yn gymorth i ni sicrhau hyn. Felly, o bryd i'w gilydd mae'n bosib y gwnawn ganiatáu i aelod o'r teulu neu ffrind rannu ystafell y Myfyriwr am uchafswm o ddwy noson yn olynol mewn cyfnod o 7 diwrnod. RHAID i breswylwyr roi gwybod i'w cyd-breswylwyr/cyd-letywyr os ydynt yn bwriadu gwahodd rhywun i aros dros nos ac os bydd cyd-breswylydd yn gwrthwynebu dylid ystyried eu teimladau. Dylai preswylwyr fod yn arbennig o sensitif os ydynt ar goridorau i ferched yn unig neu goridorau i ddynion yn unig wrth ystyried gwahodd gwestai o'r rhyw arall i aros dros nos. Dylai preswylwyr gofrestru enwau eu gwesteion trwy fynd i www.bangor.ac.uk/myroom a llenwi'r ffurflen ar-lein 'Cofrestrwch eich ymwelydd'.
- Ni ddylai Myfyrwyr rentu eu Llety i unrhyw un arall, na chaniatáu i unrhyw un arall aros yno pan nad ydynt yno eu hunain.

- Mae Myfyrwyr yn gyfrifol am ymddygiad eu hymwelwyr, ac y mae hyn yn cynnwys bod yn atebol am unrhyw ddifrod y maent yn ei achosi. Mae'n bosib y bydd rhaid i westeion adael yr Adeilad ar unrhyw adeg os yn ymddwyn mewn modd amhriodol neu'n achosi aflonyddwch i drigolion eraill. Mae'n rhaid i Fyfyrwyr sicrhau bod eu gwestai'n ymwybodol o'r drefn o adael yr adeilad mewn tân.